



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016–2020



Gwneud Cymru'n Genedl Decach

Tachwedd 2016

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet

Mae cydraddoldeb yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru ac i'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Mae'n bedair blynedd ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb cyntaf ac mae gweithio tuag at gydraddoldeb yn ymdrech hirdymor.

Wrth ddrafftio ein hail Gynllun Cydraddoldeb pedair blynedd, rydym wedi defnyddio tystiolaeth ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac â chyrff yn y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector i ddatblygu ein hwyth Amcan Cydraddoldeb, gan sicrhau ein bod yn parhau i fynd i'r afael â'r prif feysydd sy'n flaenoriaeth. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb a chymryd rhan yn ein digwyddiadau ymgysylltu, ein hymgyngori â'r cyhoedd a'n grwpiau ffocws.

Roedd ein rhanddeiliaid yn gryf o blaid cadw at ddeunydd pynciau craidd yr Amcanion Cydraddoldeb blaenorol am eu bod yn mynd i'r afael â heriau rhwng y cenedlaethau y mae gofyn canolbwyntio arnynt yn y tymor hir a gweithredu arnynt dros gyfnod. Mae'r rhan fwyaf o'r Amcanion newydd, diwygiedig felly'n mireinio cynnwys yr amcanion blaenorol.

Rydym hefyd wedi datblygu dau amcan newydd sy'n adlewyrchu'r adborth a gawsom wrth ymgynghori ac ymgysylltu. Yn gyntaf, wrth ymgynghori gwelwyd sut, mewn hinsawdd ariannol a chymdeithasol anodd, y gall safbwyntiau negyddol am bobl neu grwpiau penodol a stereoteipiau fwrw gwreiddiau ac y gall hyn roi nerth ein cymunedau a'n ffordd o gyd-fyw ar brawf. Mae hyn wedi dod yn amlycach byth ers refferendwm yr Undeb Ewropeidd ym mis Mehefin. Bydd yr Amcan newydd cyntaf (Amcan 6) felly'n, yn canolbwyntio ar gryfhau cydlyniant cymunedau, gan gynnwys y gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn hyd yn hyn yn yr Amcanion Cydraddoldeb.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cydnabod bod pobl â nodweddion gwarchoddedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tloidi. Mae trechu tloidi a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn chwarae rhan hanfodol wrth inni symud Cymru yn ei blaen. Mae hyn wedi arwain at ail Amcan newydd (Amcan 7). Mae hwnnw'n canolbwyntio'n benodol ar anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig penodol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys nid dim ond yr Amcanion Cydraddoldeb eu hunain, ond hefyd y camau yr ydym ac y byddwn yn eu cymryd er mwyn eu cyflawni. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y byddwn yn mynd ati i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a chasglu tystiolaeth am gydraddoldeb, a sut y byddwn yn monitro'r camau a gymerir o fewn pob amcan.

Mae ein cynllun yn adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud eisoes dros y pedair blynedd diwethaf a bydd yn ein helpu i barhau i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws portffolios pob Gweinidog, gan fynd i'r afael â'r meysydd anghydraddoldeb sydd o'r pwys mwyaf i holl bobl Cymru.

Mae'r cynllun hwn wedi'i gysoni'n glir â'n rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*. Yn fy mhortffolio i, fy mlaenoriaethau yw llesiant a ffyniant. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn sôn am brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau gwelliannau. Mae'r camau hyn yn rhai uchelgeisiol, a'u nod yw wneud gwahaniaeth i bawb, a hynny yn ystod pob cam o'u bywyd. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu Cymru sy'n fwy hyderus, yn fwy cyfartal, yn meddu ar well sgiliau ac yn fwy cydnerth. Mae'r cyfnod hwn yn gyfle gwych inni ddatblygu Cymru fwy cyfartal a chydlynus, gan wireddu addewid Deddf arloesol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu cydraddoldeb a chynhwysiant mewn ffordd fwy cyfannol a strategol. Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu'r nodau hyn a bwriedir iddo gyfrannu atynt.



A handwritten signature in black ink that reads "Carl Sargeant".

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

Cynnwys

Rhagarweiniad	5
Amcanion Cydraddoldeb	6
Ein Taith at Gydraddoldeb	8
Cysylltiadau â'r Prif Feysydd Polisi ar draws Llywodraeth Cymru	9
• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	9
• Tlodi ac Anghydraddoldeb	9
• Hawliau Dynol	10
• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	10
• Y Gymraeg	11
• Symud Cymru Ymlaen 2016-21	11
• Ffyniannus a Diogel	11
• Iach ac Egnïol	12
• Uchelgeisiol ac yn Dysgu	12
• Unedig a Chysylltiedig	12
• Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb	12
Cynllun Gweithredu	13
• Cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus	13
• Cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth	15
• Cyflogaeth, sgiliau a chyflog	18
• Lleihau aflonyddu a cham-drin	20
• Cryfhau cydlyniant cymdeithasol	23
• Cryfhau cydlyniant cymdeithasol	25
• Lleihau tlodi a gwella amodau byw	27
• Llywodraeth Cymru fel cyflogwr sy'n esiampl i eraill	31

Atodiadau	32
1. Llywodraeth Cymru	32
2. Y Sylfaen Dystiolaeth a Gwybodaeth Gyffredinol am Gydraddoldeb	33
• Adolygu'r Dystiolaeth am Ddiffyg Cydraddoldeb yng Nghymru a'r Bylchau yn y Dystiolaeth	33
• Cynllun Tystiolaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol	33
• Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr	34
• StatsCymru	34
• Dangosyddion Cenedlaethol	34
• Gwerthuso'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl	34
• Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'	35
• Dod o hyd i Wybodaeth Berthnasol a'i Chyhoeddi	35
• Caffael	35
• Gwybodaeth am Recriwtio a Chyflogaeth	36
• Llywodraeth Cymru fel Cyflogwr	36
• Monitro	37
3. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb	38

Rhagarweiniad

Mae cydraddoldeb yn rhan ganolog o'r ddeddfwriaeth sy'n sail i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn yr egwyddorion sy'n ein harwain a'n gwneuthuriad, ynghyd â chynaliadwyedd a llesiant, y cerrig sylfaen sy'n sail i bopeth a wnawn.

Mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – integreiddio, cydweithio, cynnwys, meddwl am yr hirdymor ac atal – wrth galon ein hymagwedd at gydraddoldeb a chynhwysiant. Nod priff-ffrydio yw cynnwys ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb mewn cynlluniau o'r cychwyn cyntaf wrth lunio polisiau, yn hytrach na'u gadael i'w hystyried ar y funud olaf ar ôl gwneud penderfyniadau pwysig.

Mae'r ddyletswydd benodol i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi bod o help mawr i brif-ffrydio, gan sicrhau bod asesu cydraddoldeb yn cael ei ystyried ar ddechrau'r broses llunio polisiau, ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae cynnig cyngor cadarn, rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion yn un o ofynion sylfaenol Llywodraeth Cymru ac yn un o sgiliau craidd gweision sifil. Mae sicrhau ein bod yn nodi effeithiau posibl wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu ddeddfwriaeth yn hanfodol bwysig.

Bydd canlyniadau pob asesiad effaith lle bydd yr effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r darn o waith perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob un o adrannau'r llywodraeth, gan sicrhau nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu gwrthio i gorneli ar wahân ond eu bod yn gyfrifoldeb i bawb sy'n llunio polisiau. Mae'r Amcanion yn ymgorffori ymrwymiad pob Gweinidog i fynd i'r afael â'r pethau hynny sy'n rhwystro cydraddoldeb a chynhwysiant.

Mae'r Cynllun hwn yn disodli Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016.

Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

Amcan 1

- Gwneud anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl â nodweddion gwarchoddedig yn ganolog i'r broses o ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd ac iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a chlodiant. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Amcan 2

- Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygrych, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Amcan 3

- Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Amcan 4

- Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid yn unig) trais yn erbyn menywod, troseddau casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Amcan 5

- Cyflawni cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus trwy adnabod rhwystrau i ymgysylltiad a chyfranogiad ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Amcan 6

- Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Amcan 7

- Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.

Amcan 8

- Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Ein Taith at Gydraddoldeb

Datblygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Bydd yr wyth Amcan Cydraddoldeb yn parhau i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd o ran i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp sy'n cael ei warchod. Mae'r Amcanion Cydraddoldeb hefyd yn rhoi gwybod i'n rhanddeiliaid ac i'r cyhoedd am y meysydd sy'n flaenoriaeth inni.

I adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar-lein, yn ogystal â digwyddiadau ymgynghori. Roedd y gweithgareddau ymgysylltu hyn yn help inni gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol i gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth inni adolygu a diwygio ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Mae www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160310-equality-objectives-2016-20-cy-v1.pdf yn dangos pa faterion a godwyd amlaf yn ystod yr ymgynghori, a hynny'n ysgrifenedig ac yn y digwyddiadau ymgysylltu. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymatebwyr yn gryf iawn o blaid cadw at amcanion craidd y set gyntaf o Amcanion Cydraddoldeb (2012-2016). Felly, diwygiwyd y rheini gan gynnwys dau arall hefyd ar gyfer 2016-2020, un sy'n canolbwyntio ar gydlyniant cymunedol ac un sy'n mynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb sy'n digwydd yn sgil tlodi.

Cyhoeddwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb ar www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?lang=cy 10 Mawrth 2016.

Cysylltiadau â'r Prif Feysydd Polisi ar draws Llywodraeth Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r sylfeini hyn wedi'u cryfhau eto yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?skip=1&lang=cy. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle pwysig i sicrhau bod cydraddoldeb yn bwrw gwreiddiau ac yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau rhwng y cenedlaethau y mae Cymru'n eu hwynebu mewn ffordd fwy cysylltiedig ac integredig, gan sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru yn edrych tua'r tymor hir.

Darparwyd ar gyfer Cymru fwy cyfartal yn y Ddeddf drwy gyfrwng nod llesiant penodol, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Serch hynny, gan mai set integredig o nodau yw'r nodau llesiant, ni ddylid ystyried bod cydraddoldeb a chynhwysiant yn bethau sy'n gysylltiedig â'r nod o sicrhau Cymru fwy cyfartal yn unig, ond eu bod hefyd yn rhan hanfodol o'r nodau llesiant eraill.

Tlodi ac Anghydraddoldeb

Mae cydberthynas gref a chlos rhwng tlodi a'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fel y mae Strategaeth Tlodi Plant www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?skip=1&lang=cy Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod, mae grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol yn llawer mwy tebygol o fyw ar aelwyd incwm isel ac maent hefyd yn fwy tebygol o ddiodef canlyniadau gwaeth o ran iechyd, addysg a chyflogaeth. Rydym yn gwybod ein bod yn annhebygol o drechu tlodi heb inni ganolbwyntio'n benodol ar leihau anghydraddoldebau eraill. Er enghraifft, fel y nodwyd yn adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2015, mae rhyw 27% o bobl mewn teulu sydd ag o leiaf un oedolyn anabl yn byw mewn tlodi, o'i gymharu â 23% o'r boblogaeth drwyddi draw. Mae canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru'n parhau'n ystyfnig o uchel, a'r data diweddaraf ar gyfer Cymru'n dangos bod 29 y cant o blant, 17 y cant o bensiynwyr a 22 y cant o oedolion o oedran gweithio'n byw ar aelwyd incwm isel. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud rhagor i helpu pobl â nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl, rhieni unigol (menywod yn bennaf) a rhai grwpiau penodol o bobl Dduon, Asiaid a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) er mwyn iddynt sicrhau gwell canlyniadau a chamu ymlaen yn y farchnad lafur. Mae hyn yn un o nodau polisi newydd Llywodraeth Cymru ynglyn â chyflogadwyedd. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym y gall gweithio i wneud pobl yn fwy cyflogadwy chwarae rhan bwysig o ran helpu llawer o bobl ymuno â byd gwaith, parhau mewn gwaith a chamu ymlaen – ond mae'n hanfodol ein bod yn gwneud rhagor i helpu'r rheini sydd ymhell o fyd gwaith, gan gynnwys rhai pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Er bod cysylltiad cryf rhwng pob un o'n Hamcanion Cydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol, bydd ein Hamcan Cydraddoldeb newydd i leihau tlodi a lliniaru ei effeithiau, yn help i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gryfhau sut mae dealltwriaeth glir o'r holl faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn sail i'n ffordd o feddwl am dlodi. Bydd yr amcan newydd yn help inni gynllunio ymyraethau effeithiol a sicrhau bod y rheini'n cael eu darparu mewn ffyrdd sydd wedi'u teilwra i ystyried anghenion ac amgylchiadau amrywiol pobl. Mae deall a mynd i'r afael â'r rhesymau sy'n achosi i bobl ddisgyn i dlodi ac aros yno'n agweddau pwysig ar ddatblygu polisïau effeithiol.

Mae nod llesiant 'Cymru fwy cyfartal' yn ategu'r amcan hwn eto, sef sicrhau cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, waeth beth yw eu cefndir.

Gan ystyried yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am y meysydd lle y gallwn gael yr effaith fwyaf, mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at drechu tlodi'n cynnwys canolbwyntio'n gryf ar leihau diweithdra, gwella sgiliau a chyflogadwyedd, a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd ac addysg. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb strategol, yn enwedig Amcanion 2 a 3 yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael â'r agenda trechu tlodi.

Hawliau Dynol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hybu a hyrwyddo hawliau dynol. Roedd hawliau dynol wedi'u plethu i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac maent yn dal i ddylanwadu ar ein polisïau, ein deddfwriaeth a'n penderfyniadau. Un o werthoedd craidd hawliau dynol yw cydraddoldeb, ynghyd â thegwch, urddas a pharch. Mae'r gwerthoedd craidd hyn yn amlwg yng nghamau gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac yn dangos y cysylltiad agos sy'n cael ei ddatblygu rhwng cydraddoldeb a hawliau dynol. Drwy gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb, rydym hefyd yn cydymffurfio â'n cyfrifoldebau rhyngwladol ym maes hawliau dynol, gan ein helpu i roi ar waith yr hawliau sydd yng Nghonfensiwnau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan barti gwladol y Deyrnas Unedig.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais ar y materion sy'n effeithio arnynt yn hawl bwysig. Mae'n ddyletswydd arnom i ystyried yr holl hawliau sydd yn y Confensiwn wrth wneud unrhyw benderfyniad. Cytundeb rhyngwladol yw'r Confensiwn sy'n amddiffyn hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn sail ar gyfer llunio polisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004 ac fe ddaeth yn rhan o deddfwriaeth Cymru drwy 'Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion gyhoeddi Cynllun Hawliau Plant www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/?skip=1&lang=cy sy'n rhestru'r trefniadau a fydd ar waith gan Weinidogion er mwyn rhoi sylw dyledus i'r Confensiwn. Diffyg cydraddoldeb a thlodi yw rhai o'r prif bethau sy'n rhwystro plant rhag cael eu hawliau.

Y Gymraeg

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys gwahaniaethu ar sail oed, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir y categorïau hyn yn 'nodweddion gwarchoddedig' yn y Ddeddf. Er nad yw iaith yn nodwedd warchoddedig, nid yw hynny'n golygu ei bod yn llai pwysig.

Mae prosesau polisi a deddfwriaethol ar wahân, gan gynnwys asesiadau effaith, er mwyn sicrhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus yn ieithoedd swyddogol Cymru. Mae hawliau'r Gymraeg yn cael eu darparu drwy ddeddfwriaeth benodol ar ei chyfer, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gyda'i gilydd, mae'r agenda cydraddoldeb a'r agenda bolisi ar gyfer y Gymraeg yn ategu ac yn llywio'i gilydd.

Symud Cymru Ymlaen 2016-21

Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n darparu rhagor o swyddi a rheini'n swyddi gwell drwy gyfrwng economi gryfach a thecach, yn gwella ac yn diwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy drwy gyflawni pedair strategaeth drawsbynciol *Ffyniannus a Diogel, Uchelgais a Dysgu, Iach ac Egniol ac Unedig a Chysylltiedig*. Bydd y rhain yn egluro'n fanylach y camau gweithredu cyd-ddibynnol y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd i roi'r cyfle i bawb yng Nghymru ffynnu drwy gydol eu bywyd.

Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni er mwyn cael y dylanwad mwyaf ac er mwyn gwireddu addewid Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd yn help i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hintegreiddio, yn effeithlon ac ar gael pan fydd eu hangen ar bobl.

Ffyniannus a Diogel

Mae ffyniant yn rhoi sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Ein nod yw sicrhau gwell swyddi a'r rheini'n nes at y cartref. Byddwn yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl i fanteisio ar y swyddi hynny. Nid yw gwell ysgolion a gwell sgiliau erioed wedi bod mor bwysig i'n pobl ifanc ac i ddyfodol yr economi. Drwy ddarparu gwell addysg a sgiliau am oes, gallwn helpu i chwalu cylch anfantais a diffyg cydraddoldeb yn y tymor hwy.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio â'i phartneriaid i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth iawn i ymdopi ag effeithiau diwygiadau lles a byddwn yn ymdrechu rhagor i greu cymdeithas unedig gyda chymunedau diogel a sicr, lle bydd pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Iach ac Egniol

Mae iechyd da'n hanfodol er mwyn creu Cymru ffyniannus, lwyddiannus a chynaliadwy. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wella iechyd pawb yng Nghymru ac er mwyn gwneud hyn, bydd angen cymryd camau mewn sawl maes, nid dim ond yn y sector iechyd traddodiadol.

Uchelgais a Dysgu

Mae ffyniant a llewyrch Cymru, ynghyd â'i sefydlogrwydd, yn dibynnu ar sgiliau a gwerthoedd ei phobl. Mae gan addysg rôl hollol sylfaenol i'w chwarae o ran boddhad personol, datblygu cymunedau a chreu cyfoeth. Mae pawb yn haeddu'r cyfle i wireddu ei botensial, a chredwn fod addysg yn newid bywydau ac yn hybu twf economaidd. Addysg fydd yn datblygu'r gweithlu sydd ei angen arnom ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus sydd wrth galon ein uchelgais ar gyfer Cymru, ac addysg fydd yn ein helpu i chwalu cylch anfantais ac anghydraddoldeb yn y tymor hir.

Unedig a Chysylltiedig

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i adeiladu cymdeithas unedig a chysylltiedig, lle bydd pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Bydd gan bobl Cymru wasanaethau cynaliadwy'n gefn iddynt sy'n diwallu anghenion heddiw ac yr un pryd yn paratoi i wynebu heriau'r dyfodol. Bydd y Llywodraeth yn parhau i fuddsoddi yn y seilwaith i hybu economi a chymunedau Cymru ac i gysylltu pob rhan o Gymru. Bydd yn helpu pobl a chymunedau o'u geni i'w henaint. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gyflawni'r diwygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gydnerth ac yn diwallu anghenion y dyfodol.

Cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu cyflawni yn ystod oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a chyn cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb 2020-2024.

Mae'r manylion a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r camau penodol i wireddu'r Amcanion Cydraddoldeb yn cyfeirio at feysydd eraill ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn sgil profiad, y gwersi a ddysgwyd a'r adborth a gafwyd, cawsom ar ddeall ei bod yn well gan randdeiliaid gael dogfennau mwy strategol, sy'n golygu eu bod yn gallu cael gafael yn haws ar wybodaeth am y meysydd sydd o ddiddordeb penodol iddynt hwy; gan dyrchu am fanylion yn y cynlluniau, y polisiau a'r rhaglenni gwreiddiol ar y wefan os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cynllun Gweithredu

Mae'r Cynllun isod yn rhestru'r camau gweithredu lefel-uchel a gymerir gan Adrannau i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf. Mae rhagor o fanylion ar gael mewn dogfennau sy'n sail iddo, drwy ddilyn dolenni, gan fod yr adborth yn awgrymu mai dyma'r dull sydd orau gan randdeiliaid.

Amcan 1

Rhoi anghenion, hawliau a chyfraniadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig wrth galon cynllunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau iechyd a iechyd meddwl, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Yn benodol, sicrhau cymorth a mynd i'r afael â rhwystrau i alluogi pobl anabl i fwynhau eu hawl i fyw'n annibynnol a bod â llais, dewis a rheolaeth yn eu bywydau.

Rhesymeg

Mae'r Amcan hwn yn dwyn ynghyd ddau o Amcanion blaenorol Llywodraeth Cymru ynglŷn â byw'n annibynnol a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Amcan newydd yn cynnwys pob grŵp gwarchoddedig gan barhau i gydnabod anghenion a hawliau penodol pobl anabl.

Yn sgil yr adborth i'n hymgyngoriad, mae'r Amcan bellach yn canolbwyntio mwy ar hawliau ac mae hefyd yn cynnwys yn benodol y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Amcan wedi'i ehangu hefyd i gynnwys addysg a thrafnidiaeth yn wasanaethau cyhoeddus pwysig.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae cysylltiad cryf rhwng yr Amcan hwn a her y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'w gwneud yn haws i bobl gael gafaer ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae cysylltiad rhwng yr Amcan hefyd â hwyluso mynediad at ofal i bobl hŷn ochr yn ochr â chymryd camau i atal cam-drin, esgeuluso a cham-drin plant a phobl hŷn mewn ysbytai a chartrefi gofal.

Camau Gweithredu

Gofal a Gofalwyr

1. Adlewyrchu'r ddarpariaeth gryfach ar gyfer hawl gofalwyr i gael gofal a chymorth www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=cy yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y Strategaeth ddiwygiedig i Ofalwyr.
2. Gwella ansawdd gofal a chynnwys hawliau i bobl hŷn mewn gofal preswyl.

Grwpiau agored i niwed

3. Rhoi cynllun gweithredu Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru (Beth am Siarad â fi) www.gov.wales/topics/health/publications/health/reports/talk2/?lang=cy ar waith gan Fyrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector gan gyfeirio'n benodol at y rheini sydd wedi'u diffinio'n 'bobl â blaenoriaeth' yn y strategaeth.
4. Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl ar gael i bawb a'r ddarpariaeth yn gyson drwy roi Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2015-19 www.gov.wales/topics/health/nhs-wales/plans/mental-health/?lang=cy ar waith. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael eu rhestru ar draws llwybr oes, er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar bob grŵp oedran.
5. Cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 sy'n cynnwys cyfeiriad penodol at ddeddfwriaeth cydraddoldeb a thegwch y ddarpariaeth gwasanaethau.
6. Rhoi ar waith fframwaith arolygu newydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru www.cssiw.org.uk/providingacareservice/our-inspections/?lang=cy ar gyfer gwasanaethau rheoledig ym maes gofal, gofal plant, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio mwy ar hawliau a llesiant pobl.
7. Adolygu a diwygio'r cynlluniau ar gyfer cyflyrau iechyd difrifol, gan ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys hygyrchedd a chydaddoldeb.
8. Adolygu a diwygio'r Cynllun Cyflawni Gofal Llygaid www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=cy i ail-flaenoriaethu lle bo angen er mwyn i'r gwasanaethau ddiwallu anghenion pobl.
9. Integreiddio rhagor o wasanaethau iechyd a gofal gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i bobl B/byddar neu'r rheini sy'n byw gyda cholli clyw drwy ddatblygu Fframwaith gweithredu integredig.
10. Datblygu gwell system ar gyfer darparu addasiadau i gartrefi pobl, waeth beth yw eu hoedran, eu hanabledd na'u math o ddaliadaeth.

Addysg

11. Sicrhau bod plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael darpariaeth o fewn system addysg gynhwysol, lle bydd eu hanghenion yn cael eu dynodi'n gynnar ac yn cael sylw'n ddi-oed a lle bydd pob dysgwr yn cael cymorth i wireddu ei botensial. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu ein Rhaglen Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?lang=cy, a fydd yn cynnwys creu deddfwriaeth sylfaenol a gweithio gyda phartneriaid i wella gallu a chapasiti'r gweithlu addysg.

Amcan 2

Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eirioli hygyrch, o ansawdd uchel i alluogi pobl â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Rhesymeg

Gall cyngor priodol a phrydlon wneud gwahaniaeth mawr i ddefnyddiwr y gwasanaeth, gan helpu i feithrin cydnerthedd pobl er mwyn iddynt wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain a gwella'u llesiant yn sylweddol.

Roedd cefnogaeth gref o blaid parhau i flaenoriaethu'r Amcan hwn, yn enwedig yng ngoleuni rhagor o doriadau gwario a newidiadau i systemau lles a chymorth cyfreithiol y Deyrnas Unedig. Mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Ariannol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru¹, yn dangos bod pobl anabl, pobl iau a rhieni sengl nad ydynt yn gweithio (y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod) ymhlith y rheini a fydd yn gweld eu hincwm yn gostwng fwy na'r cyfartaledd yn sgil diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i drethi a budd-daliadau lles a roddir ar waith yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn ar ben yr incwm a gollwyd yn sgil y toriadau lles a roddwyd ar waith eisoes. Yn ogystal â hynny, gallai diwygiadau i gymorth cyfreithiol sifil a diwygiadau eraill sy'n effeithio ar allu pobl i gael gafael ar gyfiawnder fod yn fygythiad i warchodaeth a chymorth cyfartal.

Un o'r pethau y bydd yr Amcan hwn yn canolbwyntio arno yn awr fydd hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau cynghori a'i gwneud yn haws cael gafael ar y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael eisoes, yn hytrach na chynyddu swmp yr wybodaeth honno. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn gwybod beth yw eu hawliau a pha gymorth sydd ar gael iddynt. Bydd yr amcan hefyd yn canolbwyntio ar helpu gwasanaethau cynghori i gysylltu'n well â'i gilydd, gan sicrhau bod rhwydwaith cyngor a gwybodaeth y darparwyr yn fwy effeithiol.

Mae'r amcan hwn yn rhan hanfodol o Strategaeth Tlodi Plant 2015 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ffocws penodol ar helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwyd, drwy sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael iddynt, a thrwy gymryd camau i liniaru effeithiau diwygiadau lles a chamau i fynd i'r afael â'r premiwm tlodi. Mae darparu cyngor o safon yn hanfodol er mwyn helpu pobl i fod yn fwy cyflogadwy, ac, yn benodol, i sicrhau bod unigolion yn gallu aros mewn gwaith, a chamu ymlaen ar ôl iddynt ddod o hyd i swydd gynaliadwy.

¹ Browne, J. (2015) *Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym meysydd treth, lles ac isafswm cyflog yng Nghymru: Adroddiad i Lywodraeth Cymru* <https://www.ifs.org.uk/publications/8053>

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae cysylltiad rhwng yr Amcan hwn a her y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb i'w gwneud yn haws i bobl gael gafael ar gyfiawnder. Er nad yw cymorth cyfreithiol wedi'i ddatganoli, bydd yr Amcan yn mynd i'r afael â'r her hon drwy sicrhau bod gwasanaethau cynngor a gwybodaeth ar gael yn haws a bod pobl yn fwy ymwybodol ohonynt.

Camau Gweithredu

Cyngor

1. Cyhoeddi a rhoi ar waith Gynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor am Gyfraith Lles Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cynghori o safon ar gael yn deg i bawb.
2. Rhoi Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru ar waith sy'n cynnig Nod Ansawdd i ddefnyddwyr y gall y cyhoedd ei adnabod.
3. Helpu i ddatblygu rhwydweithiau cynghori strategol a gweithredol i gynllunio a darparu gwasanaethau drwy gydlynw'r mynediad at wasanaethau cynghori, cyfarwyddyd a chymorth eraill, a chyfeirio pobl ymlaen i gael cymorth.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

4. Drwy roi cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2016-19 ar waith gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=cy byddwn yn galluogi pobl Cymru i fanteisio ar wybodaeth a chyngor priodol i hybu lles meddyliol ac i'w helpu i ddeall/rheoli eu cyflwr.
5. Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n cael triniaeth ar gyfer anhwylder meddwl mewn ysbyty a/neu'r rheini sy'n dod o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gallu manteisio ar wasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol fel y'u nodir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru – diwygio 2016.
6. Cyflawni'r strategaeth camddefnyddio sylweddau 'Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed' www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/substancemisuse/publications/strategy0818/?lang=cy er mwyn galluogi pobl yng Nghymru i fanteisio ar yr wybodaeth, y cyngor a'r driniaeth briodol er mwyn sicrhau cyn lleied o niwed a phosibl yn sgil camddefnyddio sylweddau.
7. Dylai Arolygiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu a rhoi ar waith fframwaith i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau eiriolaeth statudol i blant ac oedolion agored i niwed. Bydd y model newydd yn cael ei roi ar waith yn 2018/19 o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Twristiaeth/Gwybodaeth i'r Cyhoedd

8. Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella gwybodaeth hygyrchedd i ymwelwyr anabl sy'n chwilio am fannau i aros neu i ymweld â hwy, a chyfeirio busnesau twristiaeth at gynlluniau i wella'u darpariaeth hwythau ar gyfer ymwelwyr anabl.

Plant a theuluoedd

9. Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyingor am anghenion dysgu ychwanegol a'r system ADY, gan gynnwys drwy'r ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol sydd ar y ffordd.

Cynhwysiant Digidol

10. Rhoi Fframwaith Cynhwysiant Digidol Cymru a'i Gynllun Cyflawni www.gov.wales/topics/science-and-technology/digital/digital-inclusion/?lang=cy ar waith a gwireddu ein hymrwymiad yn 'Symud Cymru Ymlaen' www.gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf i helpu 95% o'n pobl feddu ar o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer yr 21ain ganrif drwy weithio gyda phobl hŷn a mudiadau i bobl anabl i gefnogi gweithgareddau Cynhwysiant Digidol a helpu i gydlynu'r rhain drwy Gymru.

11. Byddwn yn gweithio gyda'r prosiect Gwybodaeth i Bobl i sicrhau bod gwybodaeth gywir am ofal iechyd yn cael ei chyhoeddi mewn amrywiaeth o fformatau i weddu i anghenion pobl.

Camau Eraill

12. Datblygu Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol erbyn mis Rhagfyr 2016.

Amcan 3

Adnabod a lleihau ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau o ran cyflogaeth, sgiliau a chyflog sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, oedran ac anabledd gan gynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad mewn addysg a lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Rhesymeg

Mae'r Amcan newydd yn dwyn ynghyd ddau o Amcanion blaenorol Llywodraeth Cymru ar wahaniaethau o ran cyflogau a chyflogaeth; ac mae'n mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddefnyddio dull trawsbynciol i fynd i'r afael â'r llu o ffactorau sy'n berthnasol i gyflogadwyedd a diffyg cydraddoldeb mewn cyflogau. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r cychwyn gorau posibl i bob plentyn mewn bywyd, rhoi addysg o safon iddynt, herio stereoteipio ar sail rhyw, ac annog pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig i ymgymryd â rolau lle nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu categorio'n NEET sy'n un o flaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol pwysig Llywodraeth Cymru.

Mae'r amcan hwn yn un o elfennau hanfodol dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015 sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella deilliannau ym mlynnyddoedd cynnar plentyn a gwneud pobl yn fwy parod i'w cyflogi yn y dyfodol. Mae'n hanfodol inni fynd i'r afael â'r prif rwystrau a wynebir gan y bobl hynny'n sy'n economaidd anweithredol, a hefyd y y rheini sydd eisoes mewn gwaith i'w helpu i gael swyddi cynaliadwy, eu cadw a chamu ymlaen wedyn.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae'r Amcan hwn yn adlewyrchu nifer o'r heriau manwl a nodir yn 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae'r rhain yn cynnwys cau'r bylchau cyrhaeddiad drwy godi safonau plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant sy'n derbyn gofal a phlant Sipsiwn a Theithwyr. Mae gwahardd plant o'r ysgol hefyd yn gallu effeithio ar eu cyrhaeddiad. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar fechgyn, grwpiau penodol sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig a disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi gosod yr her o annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg ym maes swyddi. Mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at yr angen i gynyddu cyfraddau cyflogi pobl ifanc, pobl anabl, pobl sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig a Mwslemiaid; ac i gau'r bylchau yng nghyflogau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a menywod.

Camau Gweithredu

Cyflogadwyedd

1. Cyhoeddi cynllun cyflogadwyedd ar gyfer Llywodraeth Cymru drwyddi draw a fydd yn sail i sut yr eir ati yn y dyfodol gyda'r nod o helpu pobl ifanc ac oedolion i gael swydd, ailhyfforddi a chamu ymlaen mewn cyflogaeth.
2. Byddwn yn symleiddio ein cynnig presennol ym maes cyflogadwyedd i greu un rhaglen ar gyfer pobl o bob oed a fydd yn fwy ymatebol a hyblyg er mwyn diwallu'n well anghenion pobl ddi-waith, pobl sydd wedi'u tangyflogi a chyflogwyr, ac yn enwedig pobl anabl.
3. Sicrhau ymateb ar y cyd i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig am leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl drwy'r Deyrnas Unedig.
4. Defnyddio buddsoddiad Cronfa Strwythurol Ewrop i'r eithaf er mwyn helpu cymrodwr drwy Raglen Sêr Cymru 2 www.gov.wales/topics/science-and-technology/science/growing-research-in-wales/?lang=cy. Byddwn yn darparu hyd at 12 cymrodoriaeth i ddenu pobl ddawnus yn ôl ar ôl hoe mewn gyrfa gan fynd ati'n frwd i ddatblygu eu sgiliau ymgysylltu cyhoeddus drwy gyfrwng cynlluniau megis cynllun Llysgenhaddon STEMnet www.stemnet.org.uk/favicon.ico.
5. Sicrhau bod Prentisiaethau ar gael i bawb drwy ganolbwyntio ar y canlynol:
 - Cynyddu nifer y bobl o grwpiau gwarchoddedig sy'n dilyn prentisiaeth.
 - Ysgogi newid diwylliant ar y rhaglen i annog amrywiaeth.
 - Gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod prentisiaethau sy'n gysylltiedig â rhaglenni Seilwaith TGCh yn rhoi sylw i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig ac yn eu cefnogi.

Gyrfaoedd mewn Sectorau a Galwedigaethau STEM

6. Bydd y sectorau'n hyrwyddo cyfleoedd i bobl yn ôl eu rhyw, eu hil a'u hanabledd ym mhob cynhadledd, cylchlythyr ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
7. Bydd y sectorau'n cydweithio â Chwmnïau Angor, Cwmnïau o Bwys Rhanbarthol a Mentrau Bach a Chanolig i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion lleol er mwyn darparu digwyddiadau rhag-gyflogi sy'n canolbwyntio ar rywedd, hil ac anabledd.
8. Bydd y sectorau'n gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i ddatblygu camau gweithredu ym maes rhywedd, hil ac anabledd.
9. Archwilio datblygu fersiwn i Gymru o'r "Whitehall Industry Group" sy'n adleisio ac yn gwella'r rhaglen datblygu arweinwyr – Rhywedd, Lleiafrifoedd Ethnig ac Anabledd.
10. Bydd pob sector yn cyfeirio busnesau at raglen Cenedl Hyblyg 2 www.agilenation2.org.uk/cy/ Chwarae Teg. Bydd hyn yn cael ei fonitro a bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd fel rhan o'r System Adrodd am yr Amcanion.

Amcan 4

Lleihau nifer yr achosion o bob math o aflonyddu a cham-drin, gan gynnwys (ond nid yn unig) trais yn erbyn menywod, trais casineb, bwlio, cam-drin plant, cam-drin domestig, a cham-drin pobl hŷn.

Rhesymeg

Ni ddylai neb orfod byw eu bywyd ag ofn trais, cam-drin neu erlid. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi camu ymlaen dipyn gyda'r amcan hwn drwy gyfrwng: Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu a chyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ganolbwyntio ar hyn er mwyn sicrhau bod yr arferion da sydd eisoes wedi'u sefydlu yn ystod y 4 blynedd diwethaf yn bwrw gwreiddiau. Daeth hyn i'r amlwg yn yr adborth i'n hymngysylltu a'n hymgyngori.

Mae geiriad yr Amcan newydd wedi'i newid er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys pob grŵp a nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr amcan hwn hefyd yn canolbwyntio mwy ar gynyddu nifer yr adroddiadau ac ar atal.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gosod her allweddol sy'n gysylltiedig â'r Amcan hwn; dileu nifer y digwyddiadau treisgar, cam-drin ac aflonyddu, yn enwedig yn erbyn menywod, pobl anabl, pobl o leiafrifoedd ethnig, Mwslemiaid a lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol a thrawsrywiol.

Canfu'r adroddiad, er nad dyw'r trais, y cam-drin a'r aflonyddu a wynebir gan rai pobl wedi gostwng yn gyffredinol, fod nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau fel hyn i'r heddlu a nifer yr euogfarnau wedi cynyddu.

Camau Gweithredu

Trais yn erbyn Menywod, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol

1. Rhoi ar waith Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/?lang=cy

Troseddau Casineb

2. Rhoi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar waith drwy 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightequality/hate-crime/?lang=cy gyda golwg ar dri amcan, sef atal, cefnogi dioddefwyr a gwella gwaith amlasiantaeth.

3. Gwella ac esblygu gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau casineb drwy www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equalities-inclusion-grant-2017-2020/?lang=cy. Gyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer Canolfan Genedlaethol Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb www.reportheate.victimsupport.org.uk/favicon.ico.

4. Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb: Fframwaith Gweithredu www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=cy Llywodraeth Cymru, byddwn yn archwilio'r potensial i bob un o bedwar Heddlu Cymru fonitro digwyddiadau 'seiber' sy'n gysylltiedig â throseddau a digwyddiadau casineb yr adroddir yn eu cylch. Byddwn yn datblygu canllawiau ar droseddau casineb ar-lein i bobl ifanc, ymarferwyr ac oedolion.

Bwlio/Diogelu mewn Addysg

5. Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i adeiladu ar y camau a gymerwyd i roi strategaethau effeithiol ar waith i fynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion. Diweddarau'r Canllawiau Parchu Eraill www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=cy er mwyn rhoi sylw i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, www.gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/hate-crime/?lang=cy ac ystyried defnyddio llwyfannau TG cydnaws i wella argaeledd i ysgolion. Parhau i gryfhau ymwybyddiaeth drwy ddefnyddio digwyddiadau megis yr Wythnos Atal Bwlio.

6. Mae fersiwn ddiweddaraf "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy yn rhoi sylw i fersiwn newydd Gweithio Gyda'n Gilydd www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?lang=cy, a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys parhad rhaglen hyfforddi Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a meysydd eraill, a chreu a chyhoeddi modiwlau e-ddysgu a datblygu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel i bob athro yng Nghymru.

7. Sefydlu grŵp bach o arbenigwyr sy'n gallu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i'w chynghori'n benodol am adnoddau'r cwricwlwm a rhannau perthnasol o'r canllawiau atal bwlio sy'n ymwneud â Lesbïaid, Hoywon, Pobl Ddeurywiol a Phobl Drawsrywiol a Pherthnasau Iach.

Cam-drin Plant

8. Rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith – yn benodol gyda golwg ar Ran 7 Diogelu www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?lang=cy.

Cam-drin Pobl Hŷn

9. Rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith – yn benodol gyda golwg ar Ran 7 Diogelu www.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?lang=cy.

Camau Eraill

10. Gwneud pobl Cymru yn ymwybodol o broblem barhaus caethwasiaeth a bod angen cymryd camau i'w hatal a chydlynu'r cymorth gorau posibl i bobl sy'n goroesi'r profiad drwy waith Grŵp Arweinwyr Atal Caethwasiaeth Cymru.

11. Amodau contractau: bydd gofyn i gontractwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau seilwaith ymuno â chynllun yr Adeiladwyr Ystyrlon ac annog ymddygiad "cymydog da" ym mhob un o feysydd y gwaith gan gynnwys ymddygiad da gan y gweithlu tuag at aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas ag aflonyddu ar sail rhywedd a pharch at hil ac anabledd.

Amcan 5

Darparu cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus drwy adnabod y pethau hynny sy'n rhwystro pobl o wahanol gefndiroedd rhag ymgysylltu a chymryd rhan, a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

Rhesymeg

Pan fydd pobl o bob cefndir yn cael eu cynrychioli ar fyrddau cyhoeddus, bydd hynny'n sicrhau safbwyntiau amrywiol a phenderfyniadau mwy gwybodus yng Nghymru, a hynny'n lleol ac yn genedlaethol.

Roedd cefnogaeth gref iawn o blaid cadw'r amcan hwn. Mae'r gwaith dros y pedair blynedd diwethaf i gyflawni'r amcan blaenorol wedi canolbwyntio mwy ar amrywiaeth o ran rhywedd nag ar y grwpiau eraill sy'n cael eu gwarchod ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau.

O 1 Ebrill 2012 tan 1 Ebrill 2015, mae cynrychiolaeth menywod ar fyrddau cyrff cynghori rheoledig a noddir gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu o 32% i 47% ac ar fyrddau cyrff gweithredol o 35% i 38%.

Mae angen cynnal yr ymdrechion i weithio tuag at gydbwysedd o ran rhywedd er mwyn sicrhau bod y cynnydd hwn yn parhau ac yn digwydd yn systematig. Serch hynny, bydd yr Amcan hwn hefyd yn canolbwyntio ar estyn yr ymgysylltu â grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli'n sylweddol ar gyrff cyhoeddus.

Yn y meysydd hyn y mae angen rhagor o waith a chanolbwyntio yn ystod oes yr Amcan hwn ochr yn ochr â chynnal momentwm cynyddu amrywiaeth o ran rhywedd mewn penodiadau cyhoeddus.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Ychydig iawn o gynnydd a welwyd o ran amrywiaeth y bobl sy'n cymryd rhan mewn bywyd sifil, gwleidyddol a chyhoeddus. Her y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw gwella'r Gyfranogaeth wleidyddol a sifil a chynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r amcan newydd wedi crisialu hanfod yr her hon.

Camau Gweithredu

Penodiadau Cyhoeddus

1. Rhoi'r opsiynau ar waith ar ôl yr Ymarfer Cais am Dystiolaeth www.gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/under-represented-groups-call-for-evidence/?lang=cy "Cynyddu cynrychiolaeth menywod a grwpiau eraill sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ar Fyrddau'r Sector Cyhoeddus".

2. Datblygu canllawiau arferion da ar gyfer cynnal bwrdd cynhwysol.

3. Byddwn hefyd yn sefydlu data cadarn am benodiadau cyhoeddus. Mae'n hanfodol casglu data er mwyn monitro'n effeithiol y gwahaniaeth rhwng nifer y dynion/menywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n ymgeisio, yn cael eu rhoi ar y rhestr fer ac yn y pen draw'n cael eu recriwtio/a'u hailbenodi ar fyrddau. Er bod gennym ddata am yr unigolion a benodwyd/ailbenodwyd, nid oes gennym ddata am y llwybr recriwtio. Bydd sefydlu'r data hyn yn help inni weld beth yw'r rhwystrau penodol yn y broses recriwtio a mynd i'r afael â hwy. Fel arall, efallai na fyddwn yn llwyddo i gyrraedd y nod o recriwio rhagor o aelodau i fyrddau o blith grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol.

4. Gweithio gyda chadeiryddion, yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant a'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i ddeall y pethau sy'n rhwystro pobl â nodweddion gwarchoddedig rhag cymryd rhan a gwneud cais am benodiadau cyhoeddus. O fewn y 6 mis ar ôl cyhoeddi'r Cynllun hwn, byddwn yn cynnal seminar i Gadeiryddion Byrddau'r Sector Cyhoeddus gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Llywodraeth Leol – Aelodau Etholedig

5. Byddwn yn cydweithio â chyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o'r gwerth iddynt hwy yn sgil y sgiliau a'r profiad y gall staff eu hennill drwy wasanaethu fel cynghorwyr llywodraeth leol. Drwy hyn, byddwn yn ceisio ehangu ystod y bobl sy'n gallu sefyll etholiad mewn gwirionedd.

Amcan 6

Cryfhau cydlyniant cymunedol trwy feithrin perthnasoedd da, cynhwysiant, parch a dealltwriaeth o fewn a rhwng cymunedau ledled Cymru.

Rhesymeg

Amcan newydd yw hwn a bydd yn canolbwyntio ar gryfhau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymgysylltu ar draws y grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig Sipsiwn a Theithwyr, ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr.

Mae'r cyni a'r diwygiadau lles yn dal i niweidio ein cymunedau. Mewn cyfnodau lle bydd mwy o galedi, gall safbwyntiau a stereoteipiau negyddol fagu nerth mewn perthynas â phobl neu grwpiau penodol. Bydd y stereoteipiau negyddol hyn yn aml yn cael effaith anghymesur ar grwpiau sy'n wynebu mwy o anfanteision na'r rhan fwyaf.

Er bod llawer o waith cadarnhaol wedi'i wneud dros y pedair blynedd diwethaf o ran gwella cydlyniant cymunedol, mae hynny wedi digwydd ochr yn ochr â'r Amcanion Cydraddoldeb presennol. Roedd ein rhanddeiliaid yn gryf iawn o blaid dod â'r gwaith cydlyniant cymunedol o dan ambarél yr Amcanion Cydraddoldeb.

Bydd cymunedau cydlynol yn rhoi gwerth cadarnhaol ar amrywiaeth cefndir ac amgylchaidau gwahanol bobl ac yn eu gwerthfawrogi gan helpu'r rheini o wahanol gefndiroedd i gael cyfleoedd tebyg mewn bywyd.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae cysylltiad cyffredinol rhwng yr Amcan hwn â dileu achosion o drais, cam-drin ac aflonyddu yn y gymuned. Ni wnaiff cymuned sy'n gydlynol oddef aflonyddu ar ei haelodau na'u cam-drin ar sail cefndir unigolyn neu nodwedd warchoddedig.

Camau Gweithredu

1. Datblygu fersiwn ddiwygiedig o "Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chyflawni' www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/?lang=cy. Bydd y cynllun hwn yn hybu cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
2. Drwy fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Cyflawni i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/asylum-seekers-and-refugees/?lang=cy byddwn yn nodi meysydd o wahaniaethu, yn mynd i'r afael â hwy ac yn ei gwneud yn haws i geiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghymru gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus.

3. Cefnogi rhoi'r Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/asylum-seekers-and-refugees/resettling-syrian-refugees/?lang=cy ar waith drwy Gymru er mwyn cynorthwyo ffoaduriaid agored i niwed.
4. Drwy'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/?lang=cy ein nod fydd cryfhau, prif-ffrydio a chynnal dulliau gweithio lleol a rhanbarthol, er mwyn i gymunedau ledled Cymru fod yn fwy diogel, yn gynhwysol ac yn gydnerth.
5. Ariannu Chwaraeon Cymru i gryfhau'r ymgysylltu ar draws cymunedau a chwalu'r pethau hynny sy'n rhwystro cynhwysiant.
6. Noddi Cymorth Cynllunio Cymru i weithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ehangu ymwneud y gymuned â'r system Gynllunio a'r ystod o breswylwyr sy'n rhan ohoni.
7. Parhau i ymgysylltu drwy gyfrwng y Fforymau Hil a Ffydd i hwyluso deialog rhwng Llywodraeth Cymru ac ystod o gymunedau am unrhyw fater sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru.
8. Cau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng ein hardaloedd mwyaf di-fraint a'r ardaloedd mwy llewyrchus drwy dri amcan strategol: Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau Iachach.
9. Treialu partneriaethau datblygu cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr ar gyfer pobl hŷn sy'n unig ac wedi'u hynysu (Cymunedau Tosturiol) gan gynnwys y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig.
10. Gweithio gyda Menywod mewn Amaethyddiaeth drwy ddarparu nifer o fforymau Menywod mewn Amaethyddiaeth a datblygu grwpiau Agrigôp i Fenywod yn unig.
11. Defnyddio tystiolaeth a dadansoddi'n sail i'n dull o fynd i'r afael â thlodi a gwella'r canlyniadau i aelwydydd incwm isel yng Nghymru.
12. Drwy gyfrwng Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 www.gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=cy byddwn yn annog ac yn hybu gwell amgylchiadau i weithwyr mudol a gwell sicrwydd swyddi drwy wella sgiliau. Byddwn hefyd yn ceisio gwella llythrennedd TGCh ac yn hwyluso trafndiaeth i grwpiau dan anfantais sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru, gan gynnwys grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Amcan 7

Lleihau tlodi, lliniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf mewn perygl o fyw mewn aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig pobl anabl, rhieni sengl, rhai grwpiau ethnig lleiafrifol penodol, a theuluoedd â phlant anabl.

Rhesymeg

Amcan newydd yw hwn. Roedd yr adborth yn sgil ein hymgyngori'n awgrymu y dylai'r Amcanion Cydraddoldeb fod â chysylltiad mwy clir â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi a Deddf 2015, yn enwedig y nod o greu Cymru fwy cyfartal, sy'n cynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol ac amgylchiadau. Er bod cysylltiad cryf rhwng yr Amcanion i gyd ac anfantais economaidd-gymdeithasol, gan fod y dystiolaeth yn dangos bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, mae'r Amcan hwn yn canolbwyntio'n benodol ar dlodi a diffyg cydraddoldeb yn sgil nodweddion gwarchoddedig.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Mae'r Amcan hwn yn mynd i'r afael â'r her o leihau tlodi yn enwedig ymhlith plant, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig; gwella amgylchiadau byw; a lleihau digartrefedd yn enwedig i bobl sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a phobl sydd ag iechyd meddwl gwael neu anabledau dysgu.

Canfu'r adroddiad nad yw amgylchiadau byw wedi gwella o ran cydraddoldeb. Mae tlodi'n dal i effeithio ar rai pobl fwy na'i gilydd ac er bod llai o ddigartrefedd, mae rhai grwpiau o bobl yn fwy tebygol o fod yn ddigartref nag eraill.

Camau Gweithredu

Gwaith

1. Datblygu a chyflawni Cynllun Cyflogadwyedd i Gymru i helpu pawb o oedran gwaith i gael cyflogaeth ac i **sicrhau a chynnal cyflogaeth gynaliadwy**. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r Sector Preifat, ochr yn ochr â'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn deall y rhwystrau sy'n atal pobl â nodweddion gwarchoddedig rhag cael gafael ar swydd gynaliadwy a chamu ymlaen, ac er mwyn lliniaru'r rhwystrau hynny. Rhaid inni ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni i ysgogi creu cyfleoedd am swyddi o safon ac i dargedu recriwtio mewn ffordd sy'n hybu ac yn cymell cyflogwyr i gyflogi pobl anabl a phobl dan anfantais.

2. Byddwn yn symleiddio ein cynnig presennol ym maes cyflogadwyedd i greu un rhaglen ar gyfer pobl o bob oed, a honno'n fwy ymatebol a hyblyg er mwyn diwallu'n well anghenion pobl ddi-waith o oedran gweithio, pobl sy'n cael eu tangyflogi a chyflogwyr.

3. Parhau i helpu'r rheini sydd bellaf oddi wrth y marchnadoedd llafur, sy'n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cael gwaith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gyfrwng ein Rhaglen Cymunedau am Waith a'r Rhaglen Esgyn. Cynnig mentora a chymorth dwys, cyfleoedd i hyfforddi a chael profiad gwaith er mwyn sicrhau cyflogaeth gynaliadwy fel llwybr i ddianc rhag tlodi.

4. Helpu dros 4,000 o bobl sydd â phroblemau iechyd i aros mewn gwaith drwy'r rhaglen Cymorth yn y Gwaith www.gov.wales/topics/health/improvement/work/support/?lang=cy newydd. Bydd hyn yn help i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol drwy atal pobl rhag colli eu gwaith oherwydd problemau iechyd cyffredin, a'r rheini'n aml yn gysylltiedig â phroblemau cyhyrsgerbydol ac iechyd meddwl. Sicrhau cymorth ariannol drwy Gronfa Arloesi Gwaith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer cynllun treialu i ddechrau ym mis Mai 2017 i brofi model Cymorth Unigol ar Leoliad i helpu pobl a chyflyrau Iechyd Meddwl sydd wedi bod yn ddi-waith ers llai na 12 mis i gael cyflogaeth gynaliadwy.

Taglu'r Cymoedd

5. Darparu Tasglu'r Cymoedd www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/?lang=cy dan arweiniad y Gweinidog i gefnogi dulliau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau integredig, gwell swyddi a sgiliau, mwy o ymgysylltu, a sicrhau'r manteision mwyaf yn sgil strwythurau a chyrrff sy'n bodoli eisoes.

Tai

6. Gwella safon cartrefi drwy sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yng Nghymru'n cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru www.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/housing-quality/welsh-standard/?lang=cy erbyn 2020 a helpu'r rheini sy'n straffaglu i gael cyllid gan y farchnad – Benthyciad Gwella Cartrefi.

7. Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy drwy ein targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod y Llywodraeth hon. Bydd hyn yn cynnwys dulliau arloesol megis:

- y Grant Cyllid Tai www.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/housing-finance-grant/?lang=cy. Targed y cynllun hwn yw darparu 1,000 o gartrefi fforddiadwy ac mae ail gam yn yr arfaeth ar gyfer 2017 i godi 2,000 o gartrefi ychwanegol;
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy'r Rhaglen Grantiau Tai Cymdeithasol, Grant Cyllid Tai 2 a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid www.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/regeneration/vibrant-and-viable-places/?lang=cy;
- cyflwyno cynllun Rhentu i Brynu newydd. Bwriad hwn fydd helpu'r rheini sy'n awyddus i brynu eu cartef eu hunain ond sy'n straffaglu i gael blaendal sylweddol;
- herio'r sector tai i godi a cartrefi sy'n uchelgeisiol o ran eu dyluniad, eu hansawdd, eu lleoliad ac o ran effeithlonrwydd ynni.

Tlodi Plant

8. Parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru i wireddu amcanion Strategaeth Tlodi Plant 2015.

9. Gwella'r camau ataliol sylfaenol o ran afiechyd plant, anabledd, esgeulustod a cham-drin, drwy wella gofal cyn-geni, bwydo o'r fron, datblygiad plant ac imiwneiddio drwy raglen Plant Iach Cymru www.gov.wales/topics/health/publications/health/reports/healthy-child/?lang=cy.

10. Parhau i wella iechyd a llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy ganolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a thrwy geisio'u hatal lle y gallwn. Byddwn yn ceisio cryfhau cydnerthedd plant a phobl ifanc i osgoi'r newidiadau ymddygiadol a ffisiolegol niweidiol sy'n digwydd yn sgil straen cronig gan helpu i wella'u llesiant a'u ffyniant economaidd pan fyddant yn hŷn.

11. Codi cyrhaeddiad academaidd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig drwy roi strategaethau Ailysgrifennu'r Dyfodol www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy ar waith a'r fersiwn ddiwygiedig, (polisi trosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau disgyblion o gefndiroedd difreintiedig) ac estyn y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Tlodi Tanwydd

12. Trechu tlodi tanwydd www.gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/fuelpoverty/?lang=cy drwy sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael i bob aelwyd i'w helpu i leihau eu blliau tanwydd. Ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, a'r rheini sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, byddwn yn parhau i ddarparu camau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, gan sicrhau'r budd mwyaf o'n buddsoddiad drwy ddenu arian o ffynonellau eraill megis Rhwymedigaeth y Cwmniau Ynni.

Techu Tlodi yng Nghymru

13. Defnyddio pob dull sydd ar gael i wneud pobl yn fwy cyflogadwy ac i wella canlyniadau yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r manau hynny lle y gallwn gael yr effaith fwyaf, yn ôl y dystiolaeth, ar wella canlyniadau aelwydydd incwm isel.

14. Arwain ar gamau lliniaru i helpu'r rheini y mae diwygiadau lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio fwyaf arnynt.

15. Sicrhau bod y ffordd yr awn ati i drechu tlodi ymhlith y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael ei llywio gan sylfaen dystiolaeth ac ymchwil gadarn a dadansoddiadau parhaus o'r setiau data perthnasol (megis Arolwg Cenedlaethol Cymru) a dadansoddiad parhaus o effeithiau diwygiadau lles.

16. Rhaglen Cyfuno: Trechu tlodi trwy Ddiwylliant www.gov.wales/topics/cultureandsport/tackling-poverty-through-culture/?lang=cy – gweithio gydag Ardaloedd Arloesi mewn ardaloedd di-fraint i ddarparu cyfleoedd ymgysylltu diwylliannol o safon, ehangu gorwelion, a gwella cyfleoedd mewn bywyd drwy hybu sgiliau a chyflogadwyedd.

Cymorth Ariannol

17. Darparu cymorth drwy'r Gronfa Gymorth Dewisol www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?lang=cy, i'r bobl (fwyaf agored i niwed) hynny sy'n dioddef sefyllfa argyfyngus neu y mae angen help arnynt i aros yn y gymuned. Gall y cymorth hwn gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig ond nid yw wedi'i gyfyngu i'r grwpiau hyn.

18. Parhau i gefnogi'r Undebau Credyd i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd wedi'u Hallgáu'n Ariannol.

19. Bydd Llywodraeth Cymru'n annog cyflogwyr yn y sector cyhoeddus sydd wedi'i ddatganoli i ystyried rhoi Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw ar waith.

20. Darparu cymorth drwy Gynlluniau Talebau Band Eang i unigolion a chymunedau y gall fod ganddynt nodweddion gwarchoddedig, er mwyn iddynt allu manteisio ar y Seilwaith TGCh.

21. Bydd y Rhaglen Datblygu Gwledig www.gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/?lang=cy yn darparu gweithdai hyfforddi ac yn cyhoeddi dogfen ganllawiau ar gynnal gwerthusiadau ar lefel leol. Bydd y gwerthusiadau hyn yn gwella'r broses casglu tystiolaeth am gydraddoldeb ac yn datblygu canlyniadau gwell ar gyfer grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Trefniadau Oriau Heb eu Gwarantu/Contractau Dim Oriau

22. Mae trefniadau Oriau Heb eu Gwarantu, a elwir yn aml yn gontractau dim oriau'n gallu rhoi'r hyblygrwydd i unigolion wneud gwaith ychwanegol, cael addysg neu ofalu am ddibynnydd, ond ni ddylai'r hyblygrwydd hwnnw danseilio'r ffordd y caiff gweithiwr ei drin. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Egwyddorion a Chanllawiau Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus am sut i ddefnyddio trefniadau oriau heb eu gwarantu'n briodol mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y rheini a gyflogir i weithio oriau heb eu gwarantu'n cael eu trin yn deg.

Amcan 8

Bydd Llywodraeth Cymru'n anelu at fod yn esiampl yn yr agenda Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant erbyn 2020.

Rhesymeg

Amcan mewnol i Lywodraeth Cymru yw hwn, sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n darparu amgylchedd teg a chynhwysol lle mae gan bawb gyfle i fod yn ef ei hun a chyflawni ei botensial.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Yn unol â'r her i annog recriwtio, datblygu a gwobrwyo teg ym maes cyflogaeth, nod Llywodraeth Cymru yw bod yn gyflogwr da, gan hyrwyddo cyfle cyfartal, a chan roi gwerth ar unigolyddiaeth ac amrywiaeth.

Camau Gweithredu

1. Ystyried anghenion defnyddwyr ar gyfer rhaglen ailgaffael Merlin pan roddir gwasanaethau TGCh newydd ar waith yn 2019 gydag anghenion pob defnyddiwr (gan gynnwys defnyddwyr sy'n cael cymorth) yn cael eu perchnogi'n ganolog.
2. Bydd datblygu'r Prosiect Gweithio Hyblyg yn hybu arferion gweithio hyblyg drwy'r sefydliad, gan gynnig cyfleoedd i'r sawl sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rheini sydd ag anghenion cymorth ac y mae angen addasiadau rhesymol arnynt.
3. Bydd y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn datblygu cynllun gweithredu tair blynedd ac yn cytuno arno er mwyn dangos sut y bydd y sefydliad yn cyflawni'r amcan hwn. Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Grŵp.

Llywodraeth Cymru

Etholir Llywodraeth Cymru gan bobl Cymru i wireddu rhaglen lywodraethu. Mae hynny'n cynnwys gwneud penderfyniadau am y meysydd sydd wedi'u datganoli inni a sicrhau bod y rheini'n cael eu cyflawni. Mae'r meysydd hynny'n cynnwys iechyd, addysg, tai a'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru, sydd bellach yn ei phumed Cynulliad, yn gweithio'n barhaus i wella bywydau pobl Cymru ac i wneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo.

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- ddatblygu polisiâu a'u rhoi ar waith;
- sefydlu a chyfarwyddo cyflawni a llywodraethu yn y meysydd allweddol hyn, megis llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru;
- cynnig cyfreithiau Cymru (Biliau'r Cynulliad) a gwneud is-ddeddfwriaeth (e.e. rheoliadau a chanllawiau statudol).

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys:

- Y Prif Weinidog
- Ysgrifennyddion y Cabinet
- Gweinidogion
- Y Cwnsler Cyffredinol.

Fe'i cynorthwyr gan weision sifil sy'n gweithio mewn swyddfeydd ledled Cymru. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru a rennir yn 4 grŵp: Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet; y Grŵp Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol; Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol; a'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Cynorthwyr yr Ysgrifennydd Parhaol gan 2 Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr GIG Cymru ac aelodau eraill o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Y Sylfaen Dystiolaeth a Gwybodaeth Gyffredinol am Gydraddoldeb

Adolygu'r Dystiolaeth am Ddiffyg Cydraddoldeb yng Nghymru a'r Bylchau yn y Dystiolaeth

Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddarach o'r *Adolygiad o'r Dystiolaeth am Anghydraddoldeb yng Nghymru* ar ôl y Gyllideb Ddrafft 2017-18 www.gov.wales/funding/budget/draft-budget-2017-2018/?skip=1&lang=cy. Mae'r adolygiad hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth sydd ar gael a gedwir gan Lywodraeth Cymru ar y gwahanol grwpiau gwarchoddedig mewn nifer o feysydd polisi, megis Tai, Addysg a Chyflogaeth. Mae'r adolygiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth ehangach sydd ar gael, gan gynnwys tystiolaeth o A Yw Cymru'n decach? www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-report gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015).

Mae bylchau yn y dystiolaeth o hyd ar gyfer nodweddion penodol lle nad oes data ar gael neu lle mae'r data'n rhy fach inni lunio casgliadau ystyrion. Mae'r adolygiad uchod yn defnyddio data sydd ar gael o'r newydd ac sydd wedi'u cyfuno dros nifer o flynyddoedd er mwyn cynnig amcangyfrifon cadarn ar gyfer rhai grwpiau. Mae hefyd yn defnyddio astudiaethau llai mewn rhai meysydd ar grwpiau lle nad oes data ar raddfa fawr ar gael.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio tuag at lenwi'r bylchau hyn lle bo modd.

Cynllun Tystiolaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Mae Cynllun Tystiolaeth www.gov.wales/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/knowledge-analytical-services-evidence-plan/?skip=1&lang=cy blynyddol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn cynnig golwg gyffredinol ar y gweithgareddau y mae holl adnoddau dadansoddi canolog Llywodraeth Cymru'n eu cyflawni. Yn benodol, mae'n disgrifio rhaglen o allbynnau ystadegol ac ymchwil sydd wedi'u cynllunio yn ogystal â manylion am flaenoriaethau dadansoddi trawsbynciol allweddol a chynlluniau gwella.

Pan fydd y Cynllun Tystiolaeth yn cael ei gyhoeddi, byddwn yn annog pobl i gynnig adborth yn ei gylch bob blwyddyn. Dogfen fyw yw'r cynllun a byddwn yn ystyried yr adborth a gawn drwy ein mecanweithiau ymgynghori i gyd fel rhan o'n gwaith cynllunio a blaenoriaethu.

Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr

Mae diwallu anghenion pawb sy'n defnyddio ystadegau'n rhan bwysig o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Mae ein Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr www.gov.wales/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/current-practices/?lang=cy yn disgrifio sut y byddwn yn mynd ati i ymgynghori â defnyddwyr a'u hysbysu. Mae hefyd yn cynnig enghreifftiau o'r camau penodol a gymerir yn y flwyddyn ganlynol i ymgysylltu â defnyddwyr.

StatsCymru

StatsCymru www.statscymru.llyw.cymru/Catalogue yw adnau arlein dwyieithog Llywodraeth Cymru ar gyfer data ystadegol manwl am Gymru, ac mae ar gael i'w ddefnyddio am ddim. Mae StatsCymru'n caniatáu i ddefnyddwyr weld a thrin setiau data ar y sgrin, gan gynnwys eu galluogi i gynhyrchu siartiau. Gellir lawrlwytho data ar amrywiaeth o fformatau a'u cadw a'u rhannu. Mae'r system yn cynnwys bron 1,000 o setiau data, gan gynnwys gwybodaeth bwysig am boblogaeth Cymru, ei heconomi, gwariant y llywodraeth a'i pherfformiad yn ogystal â gwybodaeth am yr amgylchedd, addysg, trafnidiaeth ac iechyd.

Dangosyddion Cenedlaethol

Cyhoeddodd Gweinidogion 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol er mwyn mesur y cynnydd tuag at gyflawni nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel y'i nodir yn Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru: Dogfen Dechnegol www.gov.wales/statistics-and-research/how-do-you-measure-nations-progress-national-indicators/?skip=1&lang=cy (2016), bydd 25 o'r 46 dangosydd yn cael eu dadelfennu yn ôl nodweddion gwarchoddedig. Serch hynny, mae'r dogfen yn dweud 'na fydd yr holl ddata ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Bydd y dangosyddion yn cael eu dadansoddi lle bydd y data'n gadarn ac yn briodol i'w defnyddio yn y cyd-destun hwnnw'.

Mae'r dangosyddion na fyddant yn cael eu dadelfennu yn cynnwys sawl dull mesur nad ydynt yn seiliedig ar bobl, megis 'Lefelau llygredd nitrogen deuocsid(NO₂) yn yr aer'.

Gwerthuso'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol (2012-16) oedd y cyntaf i Lywodraeth Cymru ei ddatblygu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Daeth i rym ym mis Ebrill 2012 ac roedd yn rhestru'r nodau a'r camau gweithredu o dan yr Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod pedair blynedd dilynol. Ar ôl cwblhau'r cyfnod hwn ym mis Mawrth 2016, dechreuwyd gwerthuso'r cynllun. Pwrpas y gwerthusiad oedd adolygu'r dystiolaeth a oedd ar gael am y cynnydd a wnaed o dan yr amcanion yn y cyfnod cyntaf hwn ac ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer datblygu'r cynllun newydd.

Adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?'

Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei adroddiad pum mlynedd statudol am y cynnydd ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ers 2010. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2015 ac mae cyfoeth o ddata a thystiolaeth yn gefn iddo. Mae'n dangos cynnydd da mewn meysydd pwysig yng Nghymru gan gynnwys gostyngiad yn y nifer sy'n ddigartref, llai o elyniaeth tuag at lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol a chynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n llwyddo i gael 5 gradd A*-C yn eu TGAU.

Serch hynny, gwelwyd rhai meysydd hefyd lle nad oes fawr neu ddim cynnydd wedi bod. Er enghraifft, ym maes addysg mae diffyg cydraddoldeb sylweddol o hyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Mae'r adroddiad hefyd wedi canfod bod pobl ifanc yn sylweddol gwaeth eu byd mewn llawer ffordd gan gynnwys o ran incwm, cyflogaeth, tlodi a thai.

Mae cysylltiad amlwg rhwng y dystiolaeth yn 'A yw Cymru'n Decach?' a'r adborth a gafwyd yn ein digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu. Adlewyrchir y prif heriau hefyd yn ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Dod o hyd i Wybodaeth Berthnasol a'i Chyhoeddi

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd ein Cynllun Data Agored cyntaf. Mae hwn yn egluro ein hymrwymiaid i ddatblygu rhagor ar y ffordd yr ydym yn cyhoeddi ac yn defnyddio data, gan gynnwys gwella pa mor agored yw'r data ar hyn o bryd ar StatsCymru. Bydd hyn yn gweithio tuag at sicrhau bod y data y byddwn yn eu cyhoeddi'n hawdd cael gafael arnynt a'u haildefnyddio – i ddefnyddwyr y tu allan i Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag i ni ein hunain, er mwyn datblygu polisiau'n well.

Caffael

Cafodd Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/improving-services/better/vfm/publications/procurement-policy-statement/?skip=1&lang=cy ei ddiwygio yn 2015 ac mae'n cynnwys deg prif egwyddor y dylai holl gyrrff y sector cyhoeddus yng Nghymru gadw atynt wrth gaffael.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, rhoddir diffiniad ffurfiol o Werth am Arian, sef: "y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi, gan greu'r difrod lleiaf i'r amgylchedd."

Mae nifer o sbardunau pwysig wedi'u cynnwys yn y Datganiad Polisi sy'n dylanwadu ar gyflawni ystyriaethau cydraddoldeb gan gynnwys:

- sicrhau bod Buddion i'r Gymuned yn cael eu cynnwys mewn contractau;
- symleiddio'r broses gaffael a gostwng rhwystrau i gyflenwyr;
- hysbysebu cyfleoedd ar gyfer contractau drwy wefan GwerthwchiGymru;
- cwblhau'r pecyn Asesu Risg Cynaliadwyedd.

Drwy gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ym maes polisi caffael, gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau a gaffaelir yn addas at y diben ac felly sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein dinasyddion amrywiol a'u cymunedau. Mae Llywodraeth Cymru, wedi bod ar flaen y gad o ran cyflawni polisiau caffael ar gyfer sector cyhoeddus Cymru sydd wedi rhoi hwb i gydraddoldeb, a bydd yn parhau i wneud hynny dros y pedair blynedd nesaf.

Gwybodaeth am Recriwtio a Chyflogaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 i'w chyflogwyr drwy raglen hyfforddi sy'n sicrhau bod pawb sy'n ymuno o'r newydd yn cael hyfforddiant cydraddoldeb, yn ogystal â hyfforddiant wedi'i deilwra ar faterion sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, anabledd ac urddas yn y gwaith. Mae'r hyfforddiant a roddir ym maes Cydraddoldeb wrthi'n cael ei adolygu. Mae gofyn i holl aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil gwblhau hyfforddiant Rhagfarn Anymwybodol ac mae gofyn i bob gweithiwr arall fod wedi dilyn yr hyfforddiant cyn gwneud cais am ddyrchafiad neu os ydynt am fod yn aelod o banel recriwtio.

Llywodraeth Cymru fel Cyflogwr

Mae gofyn inni gyhoeddi ein gwybodaeth am gyflogaeth bob blwyddyn o dan Reoliadau Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae'r wybodaeth hon am gyflogaeth yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr blynyddol. Mae'r Adroddiad yn cynnwys data am ein gweithlu yn ôl nodweddion gwarchoddedig mewn meysydd sy'n cynnwys cael gafael ar adnoddau, hyfforddiant, arweiniad a gwobrwyo a chydabod. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gynnal archwiliadau rheolaidd ar gyflogau cyfartal ac yn cyhoeddi penawdau gwybodaeth am gyflogau cyfartal fel rhan o'i Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol fel Cyflogwr. Mae adroddiad 2014-2015 yma www.gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/our-role-as-an-employer/welshgovernmentemployerequality/report-14-15/?lang=cy.

Sicrhau gweithlu mwy amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu'n well yw un o brif ymrwymadau Bwrdd Llywodraeth Cymru. Cytunwyd ar dargedau sy'n canolbwyntio ar nifer y menywod yn yr uwch wasanaeth sifil ac ar gynyddu nifer y gweithwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig hil ac anabledd.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru wedi penodi Hyrwyddwr sy'n darparu diweddariadau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob chwarter. Mae gan bedwar o ddirprwy gyfarwyddwyr sy'n cynrychioli pob Grŵp yn Llywodraeth Cymru, rôl fel Hyrwyddwyr Amrywiaeth. Mae rhwydweithiau amrywiaeth yn sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi a bod cyfle iddynt ddylanwadu ar bolisiau. Mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd yn cadeirio'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys hyrwyddwyr amrywiaeth a chadeiryddion rhwydweithiau amrywiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd y Grŵp Llywio yn goruchwylio'r gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu y cyfeiriwyd ato o dan Amcan 8 ar waith.

Monitro

Dangosydd

Mae'n hollbwysig ein bod yn monitro Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio set cryf a pherthnasol o ddangosyddion poblogaeth, llawer ohonynt â chysylltiad uniongyrchol â'r dangosyddion sy'n sail i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ochr yn ochr â hyn, byddwn hefyd yn sicrhau bod adrannau unigol Llywodraeth Cymru'n mesur perfformiad rhaglenni penodol a chamau allweddol yn barhaus – a bod y dulliau mesur perfformiad allweddol ar waith.

Monitro ac adrodd

Bydd y camau gweithredu sy'n helpu i gyflawni'r amcanion yn cael eu monitro'n fewnol bob chwe mis ac yn cael eu herio lle bydd angen er mwyn sicrhau cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Adroddir am y cynnydd wrth Fwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid cydraddoldeb o'r sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector a Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru.

Bydd ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb yn rhoi crynodeb tryloyw i randdeiliaid ac i bartïon eraill â diddordeb am gynnydd Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o ran ei Hamcanion Cydraddoldeb, yn ogystal â golwg gyffredinol ar y camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol yn y cynllun hwn. Bydd cyfle hefyd bryd hynny i Adrannau ddiweddarau'r Cynllun a chynnwys unrhyw waith newydd sydd wedi'i wneud ers drafftio'r ddogfen hon.

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb yn cael eu hadolygu'n unol â'r gofyniad statudol erbyn 2020.

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae trechu tlodi ac anghydraddoldeb yn ganolog i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*. www.gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i 'roi sylw dyledus' i'r angen am ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlyn, yn ogystal ag i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodwedd warchoddedig a phobl nad oes ganddynt nodwedd o'r fath.

Bwriedir i'r Dyletswyddau Penodol, fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 helpu awdurdodau i gydymffurfio a'u Dyletswydd Gyffredinol, ac maent yn cynnwys y gofyniad i asesu'r effeithiau posibl ar gydraddoldeb wrth inni wneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gorfod cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Sail arall i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb yw'r ddyletswydd o dan Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i ddatblygu trefniadau i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu rhoi ar waith gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Mae gofyn i'n sefydliad gael trefniadau ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob un o'r nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r dull systematig yr ydym yn ei dilyn i gynnal yr asesiadau hyn yn sicrhau bod ein polisiâu a'n harferion yn diwallu anghenion pobl Cymru'n well. Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan orfodol o'r broses llunio polisiâu. Dylai ddechrau cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'n hanfodol dilyn dull integredig wrth asesu effaith, yn anad dim oherwydd bod cydberthynas rhwng llawer o'r materion sy'n berthnasol i gydraddoldeb, tlodi a hawliau plant. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru'n cael eu cysoni yn eu hanfod â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n mynd ati i drechu tlodi. Wrth asesu'r effaith ar gydraddoldeb a chynaliadwyedd, mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n benodol ar y grwpiau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniadau gwaeth. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol a phobl ifanc.

Er mwyn gwella prosesau asesu effaith yn Llywodraeth Cymru, bu'r Ysgrifennydd Parhaol yn trafod â'r staff er mwyn gweld sut y gellid gwella'r cyngor i Weinidogion a lleihau cymhlethdod prosesau mewnol. Asesu Effaith oedd un o'r meysydd lle'r oedd cymhlethdod cynyddol yn llesteirio cyngor effeithiol ynglŷn â pholisi. Gofynnodd y Prif Weinidog i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru helpu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael a hyn.

Pwrpas yr adolygiad oedd gwella'r cyngor a roddir i Weinidogion a sicrhau bod Asesu Effaith, gan gynnwys Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ychwanegu gwerth go iawn at lunio polisiau. Os gallwn wella'r asesiadau hyn, bydd cyfle i'w rhoi ar waith ar raddfa ehangach mewn gwasanaethau cyhoeddus, ar adeg pan nad yw erioed wedi bod yn bwysicach defnyddio adnoddau'n gost effeithiol.

Mae Asesu Effaith yn ffordd strwythuredig o ddeall canlyniadau camau ac ymyraethau gan lywodraeth, ac mae'n berthnasol i'r holl brif offerynnau ymyrryd sydd yn ei meddiant. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ffactorau strwythurol, diwylliannol a chyd-destunol yn rhyngweithio i greu'r 'system' Asesu Effaith sy'n achosi'r cymhlethdod a hefyd y gwerth y mae'r Asesiadau hyn yn eu cyfrannu. Er mwyn gwella'r broses Asesu Effaith, mae angen deall y 'broblem' yn llwyr.

Yn Llywodraeth Cymru, mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ganolog i'r gwaith o asesu effaith ei phenderfyniadau a'i pholisiau ar bobl Cymru, fel y dangoswyd yn ei hymrwymiad i asesu effaith ei phenderfyniadau gwario. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn symud fwyfwy tuag at gyhoeddi asesiad effaith integredig o'i Chyllideb Ddrafft. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried effaith penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a'r Gymraeg, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o gynaliadwyedd gwneud penderfyniadau. Mae'r dull integredig hwn yn gyson â'r egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).